**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 15 Mehefin 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | R V Smith | A H Stevens |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A Pugh

---

## 6. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 7. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023 a
2) Chyfarfod Arbennig y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Mai 2023.

## 8. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 9. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 10. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 11. Mwyafu darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed yn Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad i fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed yn Abertawe a defnyddio adnoddau sydd ar gael yn decach i ddiwallu anghenion pob dysgwr y mae angen addysg heblaw yn yr ysgol arno.

**Penderfynwyd:**

1) Cynhelir ymgynghoriad gan Bennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr Diamddiffyn, mewn ymgynghoriad â Phwyllgor Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion Maes Derw a rhanddeiliaid perthnasol eraill, i ystyried ad-drefnu'r UCD cyfredol yn fewnol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddiwallu anghenion ehangach disgyblion ar draws Abertawe.

2) Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd adroddiad pellach yn cael ei baratoi ar gyfer y Cabinet gyda chanlyniadau'r ymgynghoriad, er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch sut i symud ymlaen.

## 12. Cyllid ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod a Optimeiddiwyd.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer cais grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP). Cyhoeddwyd y grant ORP gan Lywodraeth Cymru i gefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer tai cymdeithasol. Bydd y grant yn cefnogi mesurau inswleiddio a chaffael technolegau adnewyddadwy ac offer monitro. Bydd hwn yn ymrwymo'r cynlluniau i'r rhaglen gyfalaf yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y cyngor.

**Penderfynwyd** bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

1) Cymeradwyo cynnig y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a nodir yn 2.0

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Prif Swyddog Cyllid ymrwymo i unrhyw gytundebau sy'n angenrheidiol i sicrhau y caiff y prosiectau eu cyflawni ac i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

3) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyllid i adennill yr holl wariant sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiectau gan Lywodraeth Cymru.

4) Caiff unrhyw benderfyniadau pellach sy'n berthnasol i'r cyllid hwn eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau. Bydd y cyllid yn cefnogi cynlluniau a gymeradwywyd drwy'r adroddiad blynyddol ar Gyllideb Gyfalaf HRA.

## 13. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grantiau Cronfa Trafnidiaeth Leol, Cronfa Cerbydau Allyriadau Isel Iawn a Chronfa Teithio Llesol 2023/24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad ar y cyd i gymeradwyo'r ceisiadau am gyllid ar gyfer y Gronfa Trafnidiaeth Leol (LTF), y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (CTLl), a gofynnodd am gymeradwyaeth ddirprwyedig ar ôl derbyn y llythyr dyfarnu grant at y Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet dros Wariant ar y prosiectau cysylltiedig yn 2023/24.

Cydymffurfio â Rheol Gweithdrefn Ariannol Rhif 7 (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf): neilltuo ac awdurdodi rhaglenni i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

1) Cymeradwyo'r ceisiadau am arian grant a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cyllid ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a'r Cyfarwyddwr Lleoedd i dderbyn unrhyw gyllid grant a ddyfernir ar gyfer cynlluniau LTF, ULEVTF (Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan) a CTLl.

2) Cymeradwyo'r cynlluniau a'u hychwanegu at raglen gyfalaf y cyngor yn unol â FPR7.

## 14. RhGA7 - Cronfa Codi'r Gwastad Rhaglen Cwm Tawe Isaf.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Digwyddiadau a Thwristiaeth a oedd yn cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** bod y Cabinet yn:

1) Cymeradwyo derbyn grant Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU o £20m.

2) Cymeradwyo cyfraniad arian cyfatebol y cyngor o £8.76m drwy fenthyca digymorth.

3) Awdurdodi ychwanegu'r cynllun a'i oblygiadau ariannol i'r Rhaglen Gyfalaf

4) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, y Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyllid i ddatblygu'r cynllun hwn o fewn y gyllideb gymeradwy.

## 15. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grant Dyraniad Craidd 20 mya 2023/24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn cadarnhau'r dyraniad grant 20 mya gan Lywodraeth Cymru a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/2024.

**Penderfynwyd** bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

1) Cymeradwyo derbyn y grant Gweithredu 20mya o £2,952,000 a chynnwys y gwariant hwn yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24.

## 16. Adroddiad FPR7 - Dyraniad Cyfalaf Ychwanegol i Raglen Waith Priffyrdd 2023-24.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn cadarnhau Dyraniad Cyfalaf Ychwanegol y Rhaglen Waith Priffyrdd 2023-24 ac i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol i neilltuo a chymeradwyo cynlluniau.

**Penderfynwyd**

1) Cymeradwyo'r dyraniad o £1m ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd a'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer pob un o'r blynyddoedd ariannol 2023-2024, 2024-25 a 2025-26

2) Cyflwyno'r dyraniad o £1m a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd ar gyfer 2024-25 a'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023-2024.

3) Rhoi awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant, gyda chydsyniad Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, i flaenoriaethu, cwblhau a chlustnodi arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.29 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | **15 Mehefin 2023** |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 20 Mehefin 2023 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 21 Mehefin 2023 |